# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mai 6ed 2025 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Dewi Pritchard, Eilir Rowlands, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Bethan Thomas, Gwenda Evans a Rita Jones,

i) Croesawu'r cynghorwyr.

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - **Etholwyd Alwyn Jones yn gadeirydd a cytunwyd i ofyn i Gwenda Evans fod yn is-gadeirydd.**

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau -
**Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-**

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Rita Jones
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor - c**ymeradwywyd.**

v) Cyfrifon 2024-25 - **cymeradwywyd**

vi) Ffurflen Archwiliad Blynyddol y Cyngor – **roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.**

vii) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd **– yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r ffioedd o fis Mehefin ymlaen.**

viii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2025/26 - **cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.**

ix) Adolygu Asedau – **adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cytunodd y cynghorwyr i archwilio'r asedau ac adrodd yn nôl yn y cyfarfod nesaf.**

x) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor - **cytunwyd i fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol newydd a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru. Adolygwyd gweddill o'r polisiau a chafwyd yn gywir.**